**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Siopau Bach: Lansio adroddiad yr ACS, ‘The Welsh Local Shop Report’**

**Dydd Mercher 7fed Chwefror 2018, 17:10 – 18:30 Ystafell Oriel, Tŷ Hywel**

**COFNODION**

**YN BRESENNOL:**

| Enw cyntaf | Cyfenw | Sefydliad |
|---|---|---|
| Paul | Davies | AC Preseli Sir Benfro |
| Janet | Finch-Saunders | AC Aberconwy |
| Mandy | Jones | AC dros Ogledd Cymru |
| David | Melding | AC dros Ganol De Cymru |
| Darren | Millar | AC Gorllewin Clwyd |
| Ken | Skates | Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth: |
| Simon | Thomas | AC dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru |
| Steve | Dowling | Y Gymdeithas Siopau Cyfleustra (ASC) |
| James | Lowman | Y Gymdeithas Siopau Cyfleustra (ASC) |
| Edward | Woodall | Y Gymdeithas Siopau Cyfleustra (ASC) |
| Neil | Moss | Cymdeithas Manwerthwyr Annibynnol Prydain |
| Joanne | Arthur | Cymdeithas Manwerthwyr Annibynnol Prydain |
| Freya | Bletsoe | Ella Riley Cyf |
| Steven | Bletsoe | Ella Riley Cyf |
| Amy | Bainton | Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru |
| Rob | Basini | Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru |
| Matthew | Hunt | Filco |
| Mick | Whitworth | Guild of Fine Food |
| Dave | Oatley | Grŵp Tanwydd Modurol |
| Julie | Murphy | Grŵp Tanwydd Modurol |
| Paul | Jones | Grŵp Tanwydd Modurol - Rheolwr Rhanbarthol |
| Mark | Coray | Ffederasiwn Cenedlaethol Trin Gwallt |
| Lloyd | Griffiths | Ffederasiwn Cenedlaethol Trin Gwallt |
| Pam | McCarthy | Ffederasiwn Cenedlaethol Trin Gwallt |
| Mark | Dudden | Ffederasiwn Cenedlaethol Manwerthwyr Papurau Newydd |
| Dee | Goberdhan | Ffederasiwn Cenedlaethol Manwerthwyr Papurau Newydd |
| Adrian | Roper | Ffederasiwn Cenedlaethol Manwerthwyr Papurau Newydd |
| Vyas | Sharma | Ffederasiwn Cenedlaethol Manwerthwyr Papurau Newydd |
| Angela | Harris | Nisa |
| Andrew | Watkins | Nisa |
| Hayley | Watkins | Nisa |
| Rhys | Morris | Llywodraeth Cymru |
| Nathan | Cook | Llywodraeth Cymru |

1. **Janet Finch-Saunders AC, Y Grŵp Trawsbleidiol ar Siopau Bach, Cadeirydd**

Agorodd Janet Finch-Saunders AC y cyfarfod drwy groesawu'r cynrychiolwyr a siarad am yr angen i waith llunio polisi'r Cynulliad gefnogi siopau lleol. Eglurodd fel y mae siopau lleol yn cynnal y stryd fawr a chymunedau lleol fel siopau unigol.

Yna eglurodd waith y Grwp Trawsbleidiol ar Siopau Bach a'r Ymchwiliad i Gefnogi Entrepreneuriaeth ac amlygodd newidiadau i'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu mewn siopau lleol mewn ymateb i'r newid yng ngofynion defnyddwyr.

2. **James Lowman, Y Gymdeithas Siopau Cyfleustra (ASC), Prif Weithredwr**

Cyflwynodd James ganfyddiadau allweddol yr adroddiad, Welsh Local Shop Report 2018, yn cynnwys gweithgarwch cymunedol siopau yng Nghymru, eu buddsoddiad a'r cyfleoedd cyflogaeth y maent yn eu cynnig, y nwyddau a'r gwasanaethau a gynigir ganddynt a'u cyfraniad i economi ehangach Cymru.

Hefyd, nododd James argymhellion polisi ACS i'r Cynulliad Cenedlaethol o ran: y defnydd o bwerau datganoledig i bennu ardrethi busnes, cynlluniau ad-dalu blaendal a chodi tâl am fagiau siopa, manwerthu cyfrifol a chysylltedd digidol.

3. **Ken Skates AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth**

Pwysleisiodd Ken Skates rôl gynyddol y Grŵp Trawsbleidiol ar Siopau Bach a chroesawodd argraffiad 2018 o'r adroddiad ar siopau lleol Cymru.

Tynnodd sylw at gefnogaeth Llywodraeth Cymru i siopau lleol drwy Ryddhad Ardrethi ar y Stryd Fawr ac amlinellodd sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio drwy Cyflymu Cymru i ddarparu cysylltiadau band eang newydd i Gymru wledig.

Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd fod manwerthu wedi'i nodi fel sector blaenoriaeth drwy Gynllun Gweithredu Economaidd Llywodraeth Cymru. Tynnodd sylw at fanwerthu fel elfen o bwys strategol i economi Cymru, fel y cyflogwr mwyaf yng Nghymru, yn darparu cyfleoedd cyflogaeth ym mhob cymuned yng Nghymru.

4. **I Gloi**

Diolchodd James Lowman i'r cynrychiolwyr. Gwahoddodd y cynrychiolwyr i gyd i fwynhau gweddill y derbyniad a dywedodd fod croeso i Aelodau'r Cynulliad lofnodi'r cerdyn adduned #mylocalshop.